


# Gallu Ariannol a Phlant sy’n Derbyn Gofal:

# Rôl Rhieni Corfforaethol

Arweiniad i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Lloegr a’r Alban ac i Ymddiriedolaethau Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon

Department for Education
pfeg Personal Finance Education Group
sharefound

# Contents

3 Cyflwyniad

4 Beth yw Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant a Chyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau?

5 Beth yw gallu ariannol ?

6 Pam fod angen ar i Rieni Corfforaethol feithrin gallu ariannol plant yn eu gofal?

6 Beth gall Rhieni Corfforaethol ei wneud i feithrin gallu ariannol?

9 Gwasanaeth Ymgynghorol i Rieni Corfforaethol ar addysg ariannol

10 Rhagor o Ddeunydd sydd ar gael

10 Meithrin llais plentyn

12 Beth yw'r cyd-destun cenedlaethol?

20 Y "Share Foundation"

20 pfeg

Llinell gymorth gwasanaeth ymgynghorol ar addysg ariannol **pfeg**: 0300 6660 127 neu support@pfeg.org (gweler tudalen 9 am fwy o fanylion)

# Cyflwyniad

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi cymorth i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldebau rhiantu corfforaethol[1] i feithrin gallu ariannol y plant a phobl ifanc sydd yn eu gofal fel eu bod mewn sefyllfa well i drin eu harian wrth iddynt ddod yn annibynnol.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o elfen addysgiadol ac ariannol cynllun yr Adran Addysg i ddarparu Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau *(Junior ISA's)* i Blant sy'n Derbyn Gofal (a adwaenir hefyd fel "plant mewn gofal"). Rhydd y cynllun, dan arweiniad y 'Share Foundation', gyfrif cynilo unigol plant iau i blant mewn gofal nad oes ganddynt Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae rhagor o wybodaeth am Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant a Chyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau, yn ogystal â gwybodaeth am y cynllun, yng nghorff y ddogfen hon.

Mae manylion trefniadau rhiantu corfforaethol yn amrywio rhwng gwledydd y Deyrnas Gyfunol, a'r tu mewn iddynt. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldebau cyffredinol yn debyg a dylai'r ddogfen, felly, gefnogi swyddogion lleol/rhanbarthol perthnasol yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Yn ogystal â rhoi cymorth i'r rhai hynny sy'n ymwneud â lles cymdeithasol ac amgylchiadau preswyl y plant a'r bobl ifanc, ei bwriad hefyd yw rhoi cymorth i'r rhai hynny sy'n ymwneud â'u haddysg. Y gobaith yw y bydd aelodau etholedig mewn llywodraeth leol yn ei gweld yn ddefnyddiol ac y bydd y rhai hynny sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o ofal ac addysg yn ei defnyddio i gyd-drefnu mwy ar yr agwedd hon o'u gwaith.

---

[1] Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac Ymddiredolaethau Gofal Iechyd a Chymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

# Beth yw Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant a Chyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau?

## Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant (Child Trust Funds)

Yn sgîl penderfyniad y llywodraeth glymbleidiol yn 2010, rhoddwyd y gorau i roi cyfraniadau gwladol i'r Cronfeydd hyn a gyflwynwyd gan y llywodraeth Lafur yn 2002 fel ffordd ddi-dreth i blant gynilo. Fodd bynnag, mae gan blant a anwyd rhwng 1 Medi 2002 a 2 Ionawr 2011 – gan gynnwys y rhai mewn gofal – hawl i Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Dylai'r gronfa hon eisoes fod yn agored ac yn weithredol.

Bydd gan fwyafrif y plant mewn gofal rywun gyda chyfrifoldeb rhiant sy'n edrych ar ôl eu cyfrif iddynt, hyd yn oed os nad ydynt yn byw gyda'r unigolyn hwnnw ar y pryd. Fodd bynnag, efallai bod yna blant nad oes ganddynt rywun priodol sydd â chyfrifoldeb rhiant a all wneud hyn, e.e. plant amddifad sydd heb warchodwr cyfreithlon.

Yn yr achos hwn, y Cyfreithiwr Swyddogol (yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) neu Gyfrifydd y Llys (yn yr Alban) sy'n edrych ar ôl cyfrifon y plant hynny, un ai hyd oni bydd rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant ar gael neu hyd oni bydd y plentyn yn 16 mlwydd oed. Bryd hynny gall y plentyn ddod yn gyfrifol am edrych ar ôl ei gyfrif ei hun.

Am fwy o wybodaeth am Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant mewn gofal, gweler www.hmrc.gov.uk/ctf/la-info.htm

## Cyfrifon Cynilon Unigol Plant Iau (Junior Individual Savings Accounts)

Er mwyn parhau i gefnogi plant mewn gofal, mae'r Llywodraeth wedi dechrau cynllun i agor cyfrifon cynilon unigol plant iau i blant sydd wedi

bod mewn gofal ers deuddeng mis yn olynol ac nad oes ganddynt Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Telir £200 i Gyfrif Cynilo Unigol Plant Iau ar gyfer y plant hyn.

Mae’r *Share Foundation*, sydd wedi’i benodi gan yr Adran Addysg i sefydlu’r cyfrifon hyn a’u gweithredu, yn codi arian i roi rhoddion ychwanegol a ddefnyddir i godi gwerth y cyfrifon hyn.  Elusen annibynnol a sefydlwyd yn 2005 yw’r *Share Foundation* i roi cymorth i blant a phobl ifanc sydd â theulu dan anfantais sylweddol neu sydd â dim teulu o gwbl, iddynt gyflawni eu potensial trwy roi cefnogaeth ar ffurf adnoddau ariannol ac addysg.

Er y bydd gan y rhan fwyaf o blant mewn gofal un ai Gyfrif Ymddiriedolaeth Plant neu Gyfrif Cynilo Unigol Plant Iau, mae’r rhain yn ychwanegol at y gefnogaeth ariannol bresennol, megis y lwfans ymgartrefu. Ni ddylent ddisodli’r gefnogaeth honno.

Am fwy o wybodaeth am Gyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau ar gyfer plant mewn gofal, gweler www.sharefound.org

## Beth yw gallu ariannol ?

Gallu ariannol yw’r gallu i drin eich arian eich hun a dod i ddefnyddio’r gwasanaethau ariannol yn hyderus, trwy ofyn cwestiynau a chael gwybodaeth gytbwys.  Mae’n broses gydol oes ac yn ymwneud â’r gallu i gael dau ben llinyn ynghyd, cadw golwg ar eich arian, cynllunio ymlaen llaw, dewis cynnyrch a gwasanaethau ariannol a bod â’r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau a datblygiadau o ran materion ariannol.

## Pam fod angen ar i Rieni Corfforaethol feithrin gallu ariannol plant yn eu gofal?

Yn aml iawn, mae plant mewn gofal yn colli allan ar gyfleoedd i ddysgu am arian fel rhan o fywyd beunyddiol teulu.  Fel eu cyfoedion, mae angen cyfleoedd arnynt i ddefnyddio arian ac i siarad amdano wrth dyfu – trafod yr angen i flaenoriaethu gwario yng nghyswllt teganau a dillad, bwyd, rhent a morgeisi, nwyddau ar gyfer y tŷ, gwasanaethau neu gost mynd allan gyda ffrindiau.

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cydnabod pwysigrwydd gallu ariannol, anaml iawn y rhoddir sylw penodol iddo mewn dogfennau neu gynlluniau lleol, ac eithrio'r rhai hynny sy'n ymwneud â phobl ifanc yn eu harddegau hŷn, wrth iddynt symud at annibyniaeth.  Gan mai proses raddol yw datblygu gallu ariannol, rhaid dechrau addysg ariannol pan fo plant yn ifanc iawn fel bod gwybodaeth, sgiliau ac agweddau yn datblygu dros gyfnod ac yn cael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd go iawn ymhell cyn y bydd gofyn i'r bobl ifanc fyw'n annibynnol.

Ni ellir rhagdybio bod plant yn dysgu am drin arian yn yr ysgol.  Mae nifer o blant mewn gofal yn symud i mewn ac allan o leoliadau ac yn newid ysgolion yn aml (yng nghanol y flwyddyn weithiau) ac felly yn colli allan ar addysg arian personol.  Hefyd, gall y ddarpariaeth fod yn anghyson o'r naill ysgol i'r llall.

## Beth gall Rhieni Corfforaethol ei wneud i feithrin gallu ariannol?

- Sicrhau bod cynlluniau strategol yn cynnwys ffyrdd o ddatblygu gallu ariannol plant a phobl ifanc o oed ifanc. Gwnewch yn siŵr bod gwahanol wasanaethau sy'n rhan o'u haddysg a'u gofal yn rhoi cefnogaeth wedi'i

chydgysylltu ac yn ymdrin â phob agwedd o addysg ariannol, gan gynnwys profiad ymarferol o wario a chynilo arian a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

- Sefydlu strategaeth ‘paratoi ar gyfer annibyniaeth’ sydd ag elfen o allu ariannol ac sy’n cydnabod amryfal sgiliau ac anghenion plant a gwahanol gyd-destun eu lleoliadau.

- Sefydlu polisi arian poced a strwythur ffurfiol ar gyfer meithrin cynilo. Cynnwys arweiniad ar y modd y mae plant yn dysgu am wario a chynilo.

- Cyfeirio at bwysigrwydd gallu ariannol mewn canllawiau a dogfennau eraill sy’n ymwneud â phlant mewn gofal – gan gynnwys newyddlenni i ofalwyr.

- Cyfeirio at ffyrdd o feithrin gallu ariannol mewn hyfforddiant i ofalwyr maeth a staff gofal preswyl. Pwysleisiwch bwysigrwydd dechrau gweithio gyda phlant ifanc fel bod modd iddynt adeiladu ar eu gwybodaeth a’u sgilau.

- Cefnogi gofalwyr maeth a staff gofal preswyl i roi cymorth i blant a phobl ifanc iddynt gael profiad o drin arian yn y cartref ac yn y gymuned a dysgu ohono gan sicrhau nad yw’r gefnogaeth yn gyfyngedig i blant sy’n eu harddegau hŷn. Cyfeirio at Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant i blant a anwyd rhwng 1 Medi 2002 a 2 Ionawr 2011 ac at Gyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau i blant y mae ganddynt hawl i’r rhain (gweler uchod am fanylion llawn).

- Ymgorffori gwaith meithrin gallu ariannol mewn disgrifiadau swydd staff allweddol sy’n ymwneud â phlant mewn gofal – y rhai hynny sy’n ymwneud â’u gofal cymdeithasol a’r rhai sy’n ymwneud â chynllunio eu haddysg.

- Cyfeirio at bwysigrwydd gallu ariannol mewn hyfforddiant ac adnoddau a roddir i athrawon sy’n gweithio gyda phlant mewn gofal (athrawon dynodedig, er enghraifft).

- Cefnogi ysgolion i ddysgu cam wrth gam yng nghyswllt addysg arian personol gyda negeseuon allweddol yn cael eu pwysleisio ar adegau gwahanol. Fel hyn, bydd yn llai tebygol i blant sy’n symud rhwng ysgolion golli cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ariannol hanfodol.

- Cynnwys gallu ariannol yng nghyfarfodydd adolygu plant a phobl ifanc yn yr ysgol ac yn y cartref ac yn eu cynlluniau addysg bersonol.

- Dosbarthu'r deunydd a ddatblygodd **pfeg** (Grŵp Addysg Arian Personol – Personal Finance Education Group) fel rhan o'r prosiect hwn. At hyn, creu cronfa/llyfrgell o ddeunydd addysg ariannol arloesol a hyblyg y mae modd ei defnyddio gyda phlant a phobl ifanc.  Mae'r holl ddeunyddiau a rhagor o adnoddau addysg ariannol ar gael ar www.pfeg.org/JISA neu www.sharefound.org.

- Cysylltu â gwasanaeth ymgynghorol **pfeg** ar gyfer Rhieni Corfforaethol. Gall y gwasanaeth hwn roi cymorth a chyngor ar ddatblygu addysg arian personol, gan ddefnyddio'r deunyddiau a grybwyllir uchod, yn ogystal â chyfeirio at fwy o adnoddau cefnogi.  Gweler isod am fanylion sut i gysylltu â'r gwasanaeth ymgynghorol.

- Sicrhau bod strwythurau ffurfiol ac anffurfiol ar gael i gasglu barn y plant a'r bobl ifanc eu hunain.  Mae modd ymgynghori gyda Chynghorau Plant mewn Gofal neu Fforymau Ieuenctid ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd i gefnogi gallu ariannol.  Fodd bynnag, sicrhewch eu bod yn cynrychioli barn bawb ac y rhoddir ystyriaeth i farn pob grŵp oedran.

- Sicrhau bod pob aelod etholedig yn ymwybodol o bwysigrwydd gallu ariannol y tu mewn i riantu corfforaethol ac yn gwybod sut y gallant gefnogi plant mewn gofal i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau priodol.

- Sicrhau bod arian am anafiadau troseddol yn cael eu buddsoddi ac y rhoddir arweiniad unwaith y bydd y person ifanc yn ddeunaw oed, fel bod modd osgoi gwario arian mawr yn annoeth.

- Rhoi cefnogaeth ychwanegol i'r rhai hynny sy'n cael arian anabledd, ystyried anghenion y dyfodol a rhoi cymorth i bobl ifanc drosglwyddo i wasanaethau oedolion pan ddaw'r amser.

## Gwasanaeth Ymgynghorol i Rieni Corfforaethol ar addysg ariannol

Fel rhan o'r cynllun Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau, mae **pfeg** yn rhoi gwasanaeth ymgynghorol i Rieni Corfforaethol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Elusen annibynnol yw **pfeg** a'i bwriad yw cefnogi darparwyr addysg i roi i blant a phobl ifanc y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i drin arian. Gwnânt hyn yn y ffyrdd a ganlyn:

- Dylanwadu ar bolisi ac ymarfer
- Cefnogi addysgwyr i ddysgu am faterion ariannol gyda hyder
- Darparu adnoddau addysgol fydd yn ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli.

Mae'r gwasanaeth ymgynghori yn cynnig gwybodaeth a chyngor ynghylch y pethau a ganlyn:

- Deunyddiau addysg ariannol i bobl ifanc (gan gynnwys y deunydd penodol a gynhyrchir ar gyfer rhai 11 oed a phymtheg oed mewn gofal fel rhan o'r cynllun Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau hwn)
- Deunyddiau i gefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu addysg arian personol yn y cwricwlwm a gwybodaeth am gefnogaeth benodol yn y gwahanol wledydd.
- Cefnogi gofalwyr i chwarae eu rhan i feithrin gallu ariannol gan gynnwys defnyddio deunydd ar gyfer gofalwyr a ddatblygir fel rhan o'r cynllun hwn.
- Sut i gynnwys addysg arian personol yng nghynlluniau gofal pobl ifanc gan gynnwys cynlluniau llwybrau a chynlluniau addysg bersonol.

Cysylltwch â'r gwasanaeth ymgynghorol ar 0300 6660 127 neu support@pfeg.org

## Rhagor o Ddeunydd sydd ar gael

Ynghyd â’r arweiniad hwn i Rieni Corfforaethol, mae **pfeg** hefyd wedi cynhyrchu’r deunydd a ganlyn fel rhan o’r prosiect hwn ar ran y *Share Foundation:*

- Gallu ariannol a Phlant sy’n Derbyn Gofal: arweiniad i ofalwyr a gweithwyr gofal preswyl
- Llawlyfr i bobl ifanc 11 oed mewn gofal
- Llawlyfr i bobl ifanc 15 oed mewn gofal

Mae’r holl ddeunydd ar gael ar www.pfeg.org/JISA neu www.sharefound.org.

## Meithrin llais plentyn

Cyn gwneud penderfyniad sy’n cael effaith ar blant a phobl ifanc a’u gofal, dylid canfod beth yw eu dymuniadau a’u teimladau. Mae eu barn ar ddysgu am arian yn bwysig oherwydd dywedant wrthym fod addysg ariannol yn hanfodol i’w lles yn y dyfodol ond eu bod yn cael rhy ychydig ohono, a hynny’n rhy hwyr.

*"Dwi wedi bod mewn un ar bymtheg o leoliadau gwahanol ac un ar bymtheg o ysgolion gwahanol yn y deng mlynedd diwethaf. Tydi dysgu am arian ddim yn dod i mewn iddi!'*

*(bachgen 16 oed)"*

Wrth drafod gyda phobl ifanc gwelir diffyg dealltwriaeth am werth am arian - canolbwyntio ar heddiw yn hytrach nag awydd i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

*'Pe byddai rhywun yn rhoi £1,500 i mi, mi brynwn i iPhone ac iPod ac iPad a Ferrari a beic.'*

*bachgen 9 oed*

*'Pe bai gen i £10,000 buaswn yn mynd ar fordaith foethus o amgylch y Caribî''*

*merch 15 oed*

Ym mhob un o'r pedair gwlad, caiff ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc ynghylch polisi ac ymarfer ei ystyried fel yr arfer gorau. Mae hyn yn gyfraith yng Nghymru a Lloegr – mae gofyn cyfreithiol ar i awdurdodau lleol ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc yn eu gofal

ynghylch materion sy’n ymwneud â nhw, a chadw cofnod ysgrifenedig o’u dymuniadau a’u teimladau.

Yn Lloegr, mae Cynghorau Plant mewn Gofal yn fan lle gall pobl ifanc mewn gofal ddweud eu dweud ar faterion sy’n bwysig iddynt, gan gynnwys cynllunio gwasanaethau.  Yng Nghymru mae fforymau ieuenctid ym mhob awdurdod lleol yn cyflawni swyddogaeth debyg.  Yn yr Alban cefnogir plant a phobl ifanc i rannu eu barn gan *Who Cares? Scotland* a chan y *Scottish Throughcare and Aftercare Forum*. Yng Ngogledd Iwerddon, mae *Voice of Young People in Care*, *VOYPIC*, yn fforwm lle gall pobl ifanc mewn gofal leisio barn ar faterion sy’n effeithio ar eu bywyd beunyddiol.

Wrth i bobl ifanc symud tuag at annibyniaeth, mae prosesau cynllunio llwybrau yn rhoi cyfleoedd iddynt fwydo eu syniadau eu hunain i’r cynllun.

# Beth yw’r cyd-destun cenedlaethol?

## Cymru

### Arweiniad Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000

www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/35/section/3

Mae yn y Ddeddf hon bennod ar Gynlluniau Llwybrau sydd, yn ei thro, yn cynnwys hunanofal a sgiliau ymarferol ac yn benodol:

- Neilltuo arian ar gyfer y cartref, gan gynnwys cymharu gwariant ac incwm, talu biliau’n rheolaidd ac osgoi defnyddio credyd yn ormodol.

### Deddf Llywodraeth Cymru 2006

www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents

Rhoddodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 bwerau datganoledig mewn meysydd penodol i Gymru, yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant. Yn sgîl hyn, roedd Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol i Gymru yn cael ei ddatblygu adeg ysgrifennu'r arweiniad hwn (gweler isod).

### Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008

www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/23/contents

Bwriad y Ddeddf hon yw rhoi mwy o gefnogaeth a honno'n gefnogaeth fwy cyson i blant mewn gofal ac i'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'n berthnasol yng Nghymru lle gweithredwyd ar yr adrannau hynny sydd y tu mewn i'w phwerau datganoledig.

### Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu (Mehefin 2011) gweler

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=en

Yn y Fframwaith ceir cynlluniau ar gyfer Cymru, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer plant mewn gofal. Rhydd y fframwaith y cyd-destun ar gyfer Bil Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

### Bil Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Adeg ysgrifennu'r arweiniad hwn, roedd y gwaith ymgynghori ar y mesur hwn wedi'i gwblhau a dylai fynd o flaen y Cynulliad Cenedlaethol yn Ionawr 2013. Mae'n debygol y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael effaith ar drefniadau cyfredol, gan gynnwys yr arweiniad Cyfnod Pontio

## Lloegr

Mae'r rhestr lawn o reoliadau ac arweiniad i Loegr i gyd mewn un man ar wefan yr Adran Addysg:

www.education.gov.uk/childrenandyoungpeople/families/childrenincare/regs

**Children and Young Person Act 2008**

Drwy wneud elfennau o'r papur gwyn *Care Matters: time to deliver for children in care* yn statudol mae'r *Children and Young Person Act 2008* yn rhoi mwy o gefnogaeth, a honno'n gefnogaeth fwy cyson, i blant mewn gofal ac i'r rhai sy'n gadael gofal.  Mae'r Adran Addysg wedi diweddaru'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithio gyda phlant mewn gofal yn seiliedig ar y Ddeddf hon.

**The Revised Legal Framework - Regulations and Guidance 2011 (yn seiliedig ar Ddeddf Plant 1989)**

Mae'r fframwaith hwn yn ymwneud â phob agwedd o daith plentyn trwy ofal, gan gynnwys iechyd, addysg a sicrhau y clywir llais y plentyn yn y broses gofal.  Mae'r fframwaith yn cynnwys, hefyd, reoliadau ac arweiniad sy'n berthnasol i gartrefi plant a darparwyr gwasanaethau maethu.  Bwriad y rheoliadau a'r arweiniad hyn yw gweithio gyda'i gilydd yn un darn cydlynol, a chynorthwyo i roi i awdurdodau lleol yr arfau i sicrhau gofal o ansawdd uchel i bob un o'u plant sydd mewn gofal.

Mae'r fframwaith yn cynnwys:

- **Care Planning, Placement and Case Review – Regulations and Guidance 2010**
- **Planning Transition to Adulthood for Care Leavers - including The Care Leavers (England) Regulations 2010.**

Nod y rheoliadau a'r arweiniad hyn yw sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael yr un lefel o ofal a chefnogaeth ag y byddai eu cyfoedion yn eu disgwyl gan riant rhesymol.  Hefyd, eu bod yn cael y cyfleoedd a'r siawns y mae arnynt eu hangen i'w cynorthwyo i symud ymlaen yn llwyddiannus i fod yn oedolyn.  Maent yn cynnwys gofynion i feithrin gallu ariannol pobl ifanc.

- Statutory Guidance on the Fostering Services (England) Regulations 20011

- Statutory Guidance on the Children’s Homes Regulations 2001(amended)
- National Minimum Standards for the Provision of Fostering Services (March 2011)
- National Minimum Standards for Children’s Homes (March 2011)

Yn y ddwy ddogfen ar y safonau cenedlaethol sylfaenol, STANDARD 12 – mae 'promoting independence and moves to adulthood and leaving care' yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau maethu/cartrefi plant gefnogi plant i ddatblygu gallu, gwybodaeth a sgiliau ariannol.

## Yr Alban

**The Children (Scotland) Act 1995**

www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/36/contents

Dyma’r brif ddeddfwriaeth yn yr Alban sy’n ymwneud â phlant, mabwysiadu plant ac â phobl ifanc oedd yn derbyn gofal awdurdod lleol pan oeddynt yn blant. Mae Adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdod gynnal asesiad angen o bob person ifanc na fydd mwyach yn derbyn gofal ar ôl cyrraedd oedran gadael ysgol. Y nod yw penderfynu pa gyngor, cymorth a chefnogaeth y dylai’r awdurdod ei roi.

**The Support and Assistance of Young People Leaving Care (Scotland) Regulations 2003**

www.legislation.gov.uk/ssi/2003/608/contents/made

Mae’r rheoliadau hyn a’r arweiniad sydd ynghlwm wrthynt yn nodi dyletswydd awdurdodau lleol i baratoi pobl ifanc ar gyfer y cyfnod pan ddaw eu gofal i ben *(“throughcare”)* a rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i bobl ifanc nad ydynt mwyach yn derbyn gofal *(“aftercare”)* ers dod i oed gadael ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Maent hefyd yn rhoi grym iddynt wneud hynny hyd at 21 mlwydd oed.

**These Are Our Bairns: A guide for community planning partnerships on** being a good corporate parent. 2008

http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/236882/0064989.pdf

Yn y ddogfen hon rhoddir arweiniad i gynghorau ac i bartneriaid eraill ar sut i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn gofal trwy gyflawni'n well eu swyddogaeth fel rhiant corfforaethol. Mae'n pwysleisio cydgyfrifoldeb i riantu'n gorfforaethol ym mhob gwasanaeth cyngor, gan gynnwys gwaith cymdeithasol, addysg, diwylliant, hamdden, tai, iechyd, heddlu a'r sectorau gwirfoddol wrth gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc mewn gofal.

**The Looked After Children (Scotland) Regulations 2009**

http://www.legislation.gov.uk/ssi/2009/210/contents/made

**The Adoption and Children (Scotland) Bill 2007**

http://www.legislation.gov.uk/asp/2007/4/contents

Mae'r ddwy eitem hyn yn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol i gynllunio ar gyfer plant a gofalu amdanynt unwaith y cânt eu hadnabod yn blant y mae arnynt angen gofal.  Maent yn tynhau, moderneiddio a chyfuno darpariaethau o amgylch asesu anghenion plant sy'n derbyn gofal fel y nodir yn Neddf Plant (yr Alban) 1995.  Maent hefyd yn ei gwneud yn ddyletswydd ar i'r awdurdod lleol baratoi cynllun plentyn a fydd yn disgrifio ar ba sail y bydd plentyn yn cael ei leoli, sut y bodlonir ei anghenion ac, yn eu tro, sut y caiff yr anghenion hyn eu hadolygu.

## Gogledd Iwerddon

**The Children (Leaving Care) Act (Northern Ireland) 2002**

www.legislation.gov.uk/nia/2002/11/contents

Nod y Ddeddf yw gwella cyfleoedd bywyd pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth iddynt symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Mae'n diwygio'r Gorchymyn Plant er mwyn

cryfhau'r dyletswyddau ar Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol iddynt roi gwasanaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Prif nodau'r Ddeddf yw:

- Sicrhau nad yw pobl ifanc yn gadael gofal hyd oni fyddant yn barod i wneud hynny
- Gwella'r gwaith asesu, paratoi a chynllunio ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal
- Rhoi cefnogaeth bersonol well i bobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal a
- Gwella'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal

**Meeting the Financial Needs of Care Leavers Age 16+ and 16-17 Year Olds Assessed as Homeless and/or Child in Need. Good practice guidance and resource tool to assist with joint working between HSC Trust, Social Security Agency and other relevant agencies.**

Arweiniad ar ymarfer da sy'n cydnabod cyfraniad cefnogaeth ariannol i waith paratoi a chefnogi pobl ifanc oed 16 – 21 (neu 24 os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant) sy'n gadael gofal a phobl ifanc oed 16/17, sydd wedi'u hasesu'n "ddigartref" a/neu'n "blentyn mewn angen" ac sydd wedi ymbellhau oddi wrth eu rhieni. Dylid ystyried hyn ochr yn ochr â pholisi ariannol pob Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng nghyswllt pobl ifanc sy'n gadael gofal.

**The Children Order Guidance and Regulations – volume 8 Leaving and Aftercare (2005)**

http://www.dhsspsni.gov.uk/index/hss/child_care/child_care_leaving_after_care/child_care_after_care_guidance.htm

Mae Adran 8,10 yr arweiniad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol lunio atodlen ysgrifenedig ar y meysydd lle byddant fel arfer yn rhoi arian i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Dylai'r atodlen hefyd egluro sut y byddant yn trin arian personol pobl ifanc wrth benderfynu pa gefnogaeth i'w rhoi.

**Our Children and Young People – Our Pledge – A Ten Year Strategy for Children and Young People in Northern Ireland 2006 – 2016**

Mae’r strategaeth hon yn cynnwys nodau strategol mewn meysydd allweddol sy’n cael effaith ar blant a phobl ifanc ac yn ystyried rôl rhieni a theuluoedd. Mae hefyd yn edrych ar bosibilrwydd cael agwedd fwy cydgysylltiedig yn y Llywodraeth yng nghyswllt materion plant.

http://www.ofmdfmni.gov.uk/index/equality/children-young-people/children-and-young-people-strategy.htm

**Care Matters in Northern Ireland (2007)**

www.dhsspsni.gov.uk/care-matters-ni-3.pdf

Gweledigaeth strategol ar gyfer gwelliannau pellgyrhaeddol mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc mewn gofal ac ar ei gyrion. Mae *Care Matters for Northern Ireland* yn ceisio cynyddu’r gefnogaeth i blant bregus a gwella canlyniadau i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

**Fostering Achievement Scheme**

www.fosteringachievement.net

Caiff y cynllun ei ddarparu gan y Byrddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol trwy ddau sefydliad gwirfoddol, *Fostering Network* ac *Include Youth,* gyda’r nod o alluogi gofalwyr maeth i sicrhau cefnogaeth ar gyfer addysg a datblygiad y plant a faethir ganddynt.

**Junior Individual Savings Accounts (JISA) for Looked After Children: Guidance for Health and Social Care Trusts – Cylchlythyr CCPD 01/12**

**Minimum Kinship Care Standards (2012)**

www.dhsspsni.gov.uk/kinship-care-standards.htm

Adeg ysgrifennu'r arweiniad hwn roedd y **Minimum Foster Care Standards a'r Leaving Care Service Standards** wrthi'n cael eu datblygu.

## Y "Share Foundation"

www.sharefound.org - Elusen annibynnol a sefydlwyd yn 2005 yw'r *Share Foundation* i roi Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau /cyfrifon buddsoddi i bob person ifanc mewn gofal (a adwaenir fel rhai 'sy'n Derbyn Gofal') am dros flwyddyn yn ddi-dor. Ni fydd gan y bobl ifanc hyn Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae'r 'Share Foundation' yn gyfrifol am:

Sefydlu pob cyfrif gyda grant cychwynnol o £200 gan y Llywodraeth;

- Codi arian gwirfoddol ychwanegol trwy annog unigolion a sefydliadau i gyfrannu a buddsoddi yn nyfodol y bobl ifanc hyn;
- Monitro perfformiad gweithredol a buddsoddi'r cyfrifon hyn i gael y canlyniadau gorau; a
- Rhoi addysg ariannol gyda chymorth **pfeg**.

## pfeg

www.pfeg.org - pfeg (Y Grŵp Addysg Arian Personol – Personal Finance Education Group) yw prif sefydliad y Deyrnas Gyfunol sy'n cynorthwyo ysgolion i gynllunio a dysgu plant a phobl ifanc sut i drin eu harian yn awr ac yn y dyfodol. Bwriad pfeg yw cefnogi darparwyr addysg i roi i blant a phobl ifanc y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i drin arian. Gwnawn hyn yn y ffyrdd a ganlyn:

- Dylanwadu ar bolisi ac ymarfer
- Cefnogi addysgwyr i ddysgu am faterion ariannol gyda hyder
- Darparu adnoddau addysgol fydd yn ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli.

© Hawlfraint y Goron
Cewch ail ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded, ewch i'r wefan **http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/** neu e-bostiwch: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**.
Lle nodwyd mai trydydd parti sydd piau'r hawlfraint ar unrhyw wybodaeth, bydd angen ichi dderbyn caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint hwnnw.